



Diwrnod Gwisgo Coch

Ar ddydd Gwener 1 Mawrth bydd y Brifysgol yn cynnal digwyddiad arbennig i godi arian i Ambiwlans Awyr Cymru, ssef Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor ar gyfer 2018-19.

Yn ogystal â bod yn Ddydd Gŵyl Dewi, mae 1 Mawrth 2019 yn nodi pen-blwydd Ambiwlans Awyr Cymru'n 18 oed.

Ar ôl lansio ar 1 Mawrth 2001, gwnaeth Ambiwlans Awyr Cymru hedfan ar ei 30,000fed taith yn 2018.

Ar ddydd Gwener 1 Mawrth, gwahoddir staff Prifysgol Aberystwyth i ddod i'r gwaith yn gwisgo rhywbeth coch a gwneud cyfraniad bach o £1 i Ambiwlans Awyr Cymru.

Amser cinio, bydd TaMed Da yn cynnig detholiad o brydau Cymreig blasus, a bydd cyfraniad o bob pryd a werthir yn mynd i Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd yna raffl hefyd gyda nwyddau Cymreig blasus fel gwobrau.

Os hoffai'r staff godi arian mewn ffyrdd eraill ar y diwrnod, megis cynnal stondin gacennau o fewn eich adran, byddai hyn yn ychwanegu at yr achlysur arbennig hwn i godi arian. Rhowch wybod i'r Tîm Cyfathrebu os yw eich tîm neu'ch adran yn bwriadu gwneud rhywbeth a chofiwch anfon lluniau ar gyfer rhifyn nesaf Newyddion Aber trwy e-bostio cyfathrebu@aber.ac.uk

Llun: Staff yn paratoi ar gyfer Diwrnod Gwisgo Coch. O'r chwith i'r dde: Chrissy Gates, Richard Dunkley-Waring, Lisa Massini, John Currie a Molly Longden.

4 Canmlwyddiant Gwleidyddiaeth Ryngwladol



5 Holiadur Lletygarwch



6 Yn ogystal â fy ngwaith bob dydd



10 Cyflog Byw Go lawn



13 Beth sy' mlaen yng Nghanolfan y Celfyddydau



Cyhoeddir *Newyddion* ABER gan y Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth.
Ffôn: 01970 622578
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Aber ar gael ym mis Ebrill. Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw Dydd Llun 11 Mawrth.



10k Aber

Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr a'r staff a gwblhaodd ras 10k Aberystwyth ar ddydd Sul 9 Rhagfyr.

Yn y llun mae Tîm Aber a gododd £905 i Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor, Ambiwylans Awyr Cymru. O'r chwith i'r dde: Arthur Dafis, Kath Williams, James Chaytor, Paul Gatehouse, Adrian Harvey, Mark Whitehead, Stephen Tooth, Andrew Thomas, Neil Glasser. Aelod arall o'r tîm nad yw yn y llun, David Moyle.

Parhad o dudalen 2

Bwydlen amser cinio TaMed Da

Diwrnod Gwisgo Coch

Dydd Gwener 1 Mawrth 2019

Codi arian ar gyfer Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor



Prif Gwrs

Cig Eidion Rhost o Gymru gyda phwddin Swydd Efrog
Coes Cig Oen Rhost o Geredigion gyda saws mint cartref
£6.50
(£3.00 yn cael ei roi i Ambiwylans Awyr Cymru)

Tarten Cennin a chaws Caerffili
Stiw llysiau haidd gwyn a chorbyns
£5.50
(£3.00 yn cael ei roi i Ambiwylans Awyr Cymru)

Theatr Goginio

Cawl Cig Oen neu Lysieuol gyda chaws o Gymru a bara
£4.50
(£2.00 yn cael ei roi i Ambiwylans Awyr Cymru)

Cawl y dydd

Cawl cennin a thatws gyda bara
£1.99
(£1.00 yn cael ei roi i Ambiwylans Awyr Cymru)

Pwddin Poeth

Pwddin bara menyndwr bara brith a siocled
£1.95
(£1.00 yn cael ei roi i Ambiwylans Awyr Cymru)

Gyrru'n ddiogel

Er na fyddwn ni'n hoffi meddwl am y peth, mae'n bur debyg mai mynd tu ôl i olwyn y car yw'r peth peryclaf a wnawn ar unrhyw ddiwrnod penodol. Yn ystod 2017, roedd dros 170,000 o bobl wedi'u hanafu ar ffyrdd Prydain, 1,793 o'r rhain yn farwolaethau - cyfartaledd o 5 y dydd. Amcangyfrifir bod chwarter yr holl deithiau yn cynnwys rhywun sy'n gyrru fel rhan o'u gwaith.

Fel cyflogwr, mae gennym ddyletswydd gofal i sicrhau bod ein staff yn ddiogel yn y gwaith, ac mae'r ddyletswydd honno'n cynnwys unrhyw gerbyd sy'n cael ei yrru fel rhan o waith y gweithiwr. Yn ddiweddar, fe gomisyndd ni adolygiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch a rheolaeth o'n holl weithgareddau sy'n ymwneud â gyrru. Mae'r adroddiad manwl, a gynhyrchwyd gan ymgynghorydd diogelwch ffyrdd proffesiynol annibynnol, yn nodi rhai arferion rhagorol sydd eisoes ar waith, ond hefyd yn amlygu rhai bylchau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Sefydlwyd gweithgor i ystyried y cynigion, ac maen nhw wedi cychwyn eu rhoi ar waith a hynny trwy broses fesul cam. Bydd hyn yn cymryd peth amser a bydd yn cynnwys pawb. Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn rhannu rhagor am y mater pwysig hwn, ac yn gofyn i chi chwarae eich rhan wrth i ni greu diwylliant gyrru diogel ledled y Brifysgol.

Stephen Foster yw Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y Brifysgol ac mae'n cadeirior Gweithgor Rheoli Fflyd.



Colofn yr Is-Ganghellor



Un o uchafbwyntiau bywyd Aber i mi yw'r gwobrau staff a myfyrwyr blynyddol sy'n cael eu cynnal gan Undeb y Myfyrwyr. Mae'n ddigwyddiad arbennig am nifer o resymau. Mae'n atseinio yn y cof oherwydd teyrngedau didwyll y myfyrwyr i staff sydd wedi

gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, a hynny mewn swyddi academaidd neu gefnogol. Mae eu geiriau yn atgyfnerthu pam ein bod ni yma a sut y medrwn gael effaith drawsnewidiol ar ddyfodol cymaint o fyfyrwyr.

Mae UMaberSU yn Dathlu yn rhywbeth amgenach na chydabod staff; mae'n gyfle i ymhyfydu yn llwyddiannau a chyraeddiadau ein myfyrwyr, llwyddiannau na fydd bob amser yn derbyn clod haeddiannol, wrth iddynt roi o'u hamser yn wirfoddol i arwain cymdeithas neu ragori mewn chwaraeon penodol. At ei gilydd, mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal dros 150 o gymdeithasau a chlybiau chwaraeon gwahanol - sy'n amrywio o gadwraeth, gemau argyfwng ac ysgrifennu creadigol i griced, karate a chaiacio. Mae ymuno ag un o'r grwpiau hyn yn cyfoethogi bywyd myfyrwyr, yn datblygu sgiliau newydd yn ogystal â bod yn ffynhonnell hwyl a chyfeillgarwch oes.

Cynhelir y seremonïau gwobrwyo dros dair noson, gyda'r cymdeithasau ar ddydd Llun 1 Ebrill, staff a myfyrwyr ar ddydd Mawrth 2 Ebrill a chwaraeon ar ddydd Mercher 3 Ebrill. Mae'r gwaith cynllunio sy'n digwydd yn fanwl eithriadol ac yn glod i'r tîm o swyddogion gwyb yn Undeb y Myfyrwyr. Felly, diolch i bawb sy'n cymryd rhan a hei lwc gyda'r paratodau. Bydd adroddiadau llawn a lluniau ar-lein yn ogystal ag yn y rhifyn nesaf o *Newyddion* ABER.

Daw mis Mawrth â chyfle arall i ddatlu llwyddiant staff a myfyrwyr; y tro hwn, yng Ngwobrau blynyddol Gŵyl Dewi y Brifysgol a gynhelir yn yr Hen Goleg. A hithau'n fis ein Nawdd Sant, mae'n addas ein bod yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r rheini sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i hunaniaeth a defnydd y Gymraeg yn y Brifysgol- boed hynny drwy ymdrechu i ddysgu a defnyddio'r iaith, goresgyn rhwystrau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, neu fynd y filltir ychwanegol honno i sicrhau bod yr iaith yn cael ei defnyddio yn y gweithle.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, mawr obeithiaf y byddwch yn ymuno â mi i wneud y pethau bychan a gwisgo coch i'r gwaith a chodi arian ar gyfer yr achos teilwng iawn a ddewiswyd yn Elusen yr Is-Ganghellor eleni, sef Ambiwlans Awyr Cymru. Mae eu parafeddygon awyr yn gwneud mwy na 2,500 o deithiau bob blwyddyn ac rwy'n siŵr y bydd gan lawer ohonom gysylltiad personol ag o leiaf un o'r ymgyrchoedd achub hynny. Mae dydd Gwener 1 Mawrth yn arbennig iawn gan ei fod yn nodi pen-blwydd yr elusen yn 18 oed. Gallwch ddarllen rhagor am yr hyn sydd ar y gweill a sut i gymryd rhan ar glawr y rhifyn hwn o

Newyddion ABER.

Rydyn ni'n codi arian hefyd ar gyfer yr Hen Goleg wrth inni weithio i sicrhau dyfodol hirdymor yr adeilad rhestredig Gradd 1 hwn, sy'n greiddiol i'n treftadaeth a'n cenhadaeth sefydliadol fel sefydliad Cymreig sy'n cynnig addysg uwch i bawb. Mae rhagor am hyn ar dudalen 12 a rhowch eich cefnogaeth os medrwn wrth i ni warchod ein gorffennol ac adfywio ein hetifeddiaeth i'r oesoedd a ddel.

Os hoffech gysylltu â mi, mae croeso i chi e-bostio vcostaff@aber.ac.uk a byddaf yn ymateb.

Yr Athro Elizabeth Treasure
Is-Ganghellor

Print Rebels

Haden, Palmer, Whistler a dechreuadau Cymdeithas Frenhinol y Paentwyr-Gwneuthurwyr Printiau
Haden, Palmer, Whistler and the origins of the Royal Society of Painter-Printmakers
Oriel yr Ysgol Gelf | School of Art Gallery, Chwefror 18 Febrúary–Mai 3 Mai 2019



Canmlwyddiant yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Bydd digwyddiadau i ddathlu Canmlwyddiant yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn parhau drwy Semester 2, dan arweiniad **Dr Jan Ruzicka**.

Sefydlwyd hon i fod yr adran gyntaf o'i bath yn y byd yn sgil gwaddol hael i Gadair Woodrow Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol gan David, Gwendoline, a Margaret Davies Llandinam, a hynny o fewn wythnosau i'r cadoediad yn 1918.

Bydd Cyfres Siaradwyr y Canmlwyddiant, a agorwyd ym mis Hydref 2018 gan y Prif Weinidog Carwyn Jones, yn dod â siaradwyr adnabyddus i Aberystwyth megis yr Athro Louise Richardson, Is-Ganghellor Rhydychen (7 Chwefror); Gideon Rachman, Prif Sylwebydd Materion Tramor y Financial Times (4 Ebrill) ac Athro Prifysgol Princeton G. John Ikenberry (2 Mai). Bydd dau unigolyn sydd â chysylltiadau agos ag Aberystwyth hefyd yn rhan o'r Gyfres - bydd yr Athro Ken Booth, yr aelod sydd wedi gwasanaethu hiraf erioed yn yr Adran, yn traddodi Darlith Flynyddol Sefydliad Coffa David Davies (21 Chwefror), a bydd yr Athro Steve Smith, Is-Ganghellor Caerwysg, yn siarad ar 5 Mawrth.

Mae'r Canmlwyddiant yn gyfle gwych i gryfhau'r cysylltiadau â graddedigion yr Adran. Byddwn yn cynnal Gêm Argyfwng i Gyn-fyfyrwyr yng Ngregynog (3-5 Mai), Cynhadledd Academaidd y Canmlwyddiant (17-19 Mehefin), ac Aduniad i Gyn-fyfyrwyr mewn



Gweithdy Ymarferwyr y Swyddfa Dramor a Chymanwlad 'One Hundred Years of International Relations: Continuity and Change'. Llundain, 22 Ionawr 2019.

cydweithrediad â Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr (21-23 Mehefin).

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi bod yn elfen bwysig o waith yr Adran erioed, a hyn wedi'i adlewyrchu yn ein digwyddiadau a gynhelir ar y cyd â Chymdeithas Ddysgedig Cymru (12 Mawrth) a'r Cynulliad Cenedlaethol (30 Ebrill). Mae'r ymgysylltu hwn eisoes wedi dechrau gyda gweithdy hynod lwyddiannus - 'Canrif o Gysylltiadau Rhyngwladol: Parhad a Newid' -

a drefnwyd ar y cyd â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar 22 Ionawr.

Mae pob un o'n digwyddiadau yn agored i'r cyhoedd ac i gael gwybod rhagor, dilynwch ni ar [@InterpolAber](https://twitter.com/InterpolAber) neu ewch i'r wefan www.aber.ac.uk/cy/interpol/about/centenary

Dr Jan Ruzicka
Darlithydd mewn
Astudiaethau
Diogelwch



Agorodd y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog, Gyfres Siaradwyr y Canmlwyddiant ym mis Hydref 2018.

Holiadur Lletygarwch

Mae'r adran Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am redeg gwahanol weithrediadau masnachu ar draws y Brifysgol, gan gynnwys lletygarwch, manwerthu, chwaraeon a chynadleddau a digwyddiadau.

Ym mis Tachwedd 2018, cynhaliwyd adolygiad o'r manau gwerthu bwyd a diod 'ar y campws' i helpu i ganfod a yw'r arlwy lletygarwch presennol yn bodloni'ch anghenion fel defnyddwyr.

Gofynnwyd beth oedd eich barn am y math o fwyd a diod a gynnigir ar y campws ar hyn o bryd, ymhle a phryd y mae ar gael, faint mae'n ei gostio, a llawer mwy. Yn ogystal â holiadur ar-lein, cynhaliwyd tri grŵp ffocws hefyd.

Cafwyd cyfradd ymateb ragorol i'n holiadur, sef 1,251 ateb (702 gan fyfyrwyr, 409 gan staff, 140 gan y cyhoedd / pobl eraill).

Rydym wrth ein bodd bod dros 80% yn fodlon mewn 7 o'r 9 maes allweddol. Mae'r canlyniad gwyb hwn yn adlewyrchu sgiliau ac ymroddiad tîm y staff lletygarwch.


Fodd bynnag, nid da lle gellir gwella ac rydym yn lansio rhaglen o fentrau newydd cyffrous yn seiliedig ar beth o'r adborth a gafwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **brechdanau** - mae cyflenwyr gwahanol wrthi'n cael eu treialu yn IBERbach a TaMed Bach.
- **dewisiadau ysgafnach** - bydd tatws pob a chawl yn cael eu treialu'n fuan yn IBERbach, bydd dewisiadau salad yn cael eu diweddarau a'u hehangu a chynigir prydau bwyd plant yng Nghanolfan y Celfyddydau
- **cynigir dewis helaethach o brydau poeth llysieuol, figan a di-glwten yn TaMed Da, caffî Canolfan y Celfyddydau a'r becws yn Siop y Myfyrwyr**
- **bwyd plaen** - bydd rhagor o opsiynau protein ar gael heb saws neu sbeisys/perlysiâu wedi'u hychwanegu
- **gwerth am arian** - bydd rhagor o



Dyma'r canlyniadau allweddol:

- Glendid lletygarwch y manau gwerthu - roedd **95%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Y dewis o ddiodydd sydd ar gael - roedd **90%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Ansawdd y bwyd sydd ar gael - roedd **88%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Y dewis o fwyd sydd ar gael - roedd **83%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Oriau agor y manau gwerthu - roedd **83%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Bodloni anghenion diet - roedd **81%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Cyflymder y gwasanaeth yn y manau gwerthu - roedd **81%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Eglurder prisiau ac arwyddion yn y manau gwerthu - roedd **71%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Gwerth am arian y bwyd a'r diod sydd ar gael - roedd **60%** yn fodlon neu'n fodlon iawn
- Ymddengys bod y myfyrwyr ychydig yn fwy bodlon yn gyffredinol, gan gofnodi lefelau boddhad uwch i'r mwyafrif o gwestiynau o'i gymharu â staff y Brifysgol
- Tynnwyd sylw at feysydd penodol i wella'r arlwy / gwasanaeth presennol mewn 137 o sylwadau yn y testun rhydd



- 'becynnau' yn cael eu cynnig, megis 'cynnig pecyn cinio' a chyfnewid am rywbeth drytach am bris gostyngedig
- **cyflymder y gwasanaeth** - mae mentrau wrthi'n cael eu hystyried i gyflymu'r gwasanaeth yn IBERbach ac yng nghaffî Canolfan y Celfyddydau.

John Glasby
Pennaeth
Gwasanaethau
Masnachol





Yn ogystal â fyngwaith bob dydd

Ddydd Sadwrn 23 Mehefin 2018, aeth 12 o fechgyn 11-16 oed am dro i mewn i ogofâu yn nhalaith Chiang Rai, Gwlad Thai gyda'u hyfforddwr ar ôl ymarfer pêl-droed ac i ddathlu pen-blwydd. Cafodd y grŵp eu dal gan ddŵr a gododd yn hynod sydyn, a hwythau'n ddwfn y tu mewn i ogof Tham Luang sy'n ymdroelli o dan y mynydd sy'n gwahanu Gwlad Thai a Myanmar.



Roedd yr ymgais i'w hachub a ddilynodd yn ddramatig ac yn llawn tyndra, ac wedi hoelio sylw'r byd i gyd. Tra bod camerâu cyfryngau'r byd wedi canolbwyntio ar y plymwyr a oedd yn ceisio'u hachub, roedd grŵp o achubwyr di-glod yn gweithio y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod gan y plymwyr yr holl offer a chefnogaeth yr oedd eu hangen arnynt. Un o'r rhai a weithiai yn y cefndir oedd **Dr Peter Dennis, Darllenwyd mewn Ecolleg yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol**, Amgylcheddol a Gwledig. Etholwyd ef yn gadeirydd Cyngor Achub Ogofâu Prydain (BCRC) ychydig wythnosau cyn derbyn y cais taer am help gan awdurdodau Gwlad Thai.

Cafodd *Newyddion* ABER sgwrs â Peter ynghylch bod yn rhan o'r hyn y mae ef yn ei ddisgrifio yn "ymgais achub o ogof sydd yn un o'r rhai mwyaf trawiadol rydym erioed wedi'i weld".

Esboniwch beth yw Cyngor Achub Ogofâu Prydain?

Fel arfer, Cyngor Achub Ogofâu Prydain (BCRC) yw'r corff sy'n cydlynu'r 15 o dimau unigol sy'n cynnig gwasanaeth achub o ogofâu ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Rydym yn cynrychioli buddiannau'r timau chwilio ac achub gwirfoddol hyn, yn trefnu hyfforddiant ac yn cyfnewid gwybodaeth ac arfer gorau ymhlith y timau.

Dim ond yn ystod digwyddiadau rhyngwladol achlysurol y mae'r BCRC yn trawsnewid yn sefydliad achub gweithredol.

Ar ba adeg y gofynnwyd i'r BCRC am gymorth yn yr ymdrech achub yn Tham Luang?

Ar ôl i'r bechgyn fynd ar goll roedd ychydig o draffig ar-lein yn nodi bod ymgyrch achub o ogof wedi dechrau yng Ngwlad Thai ar ôl darganfod beiciau'r bechgyn wrth fynedfa ogof.

Fodd bynnag, roedd plymiwr sy'n dod o Brydain yn wreiddiol, Vernon Unsworth, ond sydd bellach yn byw yn agos at ogof Tham Luang, wedi sylwi ar y codi syfrdanol yn lefel y dŵr wedi glaw trwm ac roedd ef wedi'u cyngori'n gryf y byddai'n rhaid cael plymwyr ogof arbenigol i chwilio'r ogof o ystyried y dirywio yn yr amodau dan ddaear.

Cawsom geisiadau anffurfiol a ffurfiol yn ddiweddarach i roi cymorth yn ystod dydd Llun/dydd Mawrth.

Pa gymorth y gofynnwyd amdano gan y BCRC ar yr adeg hon?

Mae timau achub ogof Prydain yn gyfarwydd iawn â dulliau tramwyo drwy fannau bychain cul a chyfyng mewn dŵr, heb fedru gweld fawr o ddim os unrhyw beth.

Y cais cychwynol oedd am blymwyr ogofâu profiadol a allai roi cyngor i blymwyr Llynges Thai ynghylch plymio mewn lle cyfyng.

Beth oedd yr heriau i'r bobl oedd yn ceisio achub?

I ddechrau arni, gorfod delio â'r anhrefn yn y gweryll achub.

Roedd y cydlynu wedi bod yn wael iawn ar y dechrau rhwng y llu o gynorthwyr milwrol a sifil a ymgasglodd yn y gwersyll. Bwriad da gan bawb ond yn gwbl anhrefnus.

Roedd yr amodau o amgylch mynedfa'r ogof yn wael oherwydd y glaw a'r mwd. Yna roedd cyflwr yr ogof ei hun. Llwyddodd y plymwr Prydeinig Rick Stanton a John Volanthen i blymio yn eithaf buan ar ôl cyrraedd, ond roeddent wedi wynebu amodau plymio anodd iawn, gyda cherrynt cryf yn y rhannau hynny o lwybrau'r ogof oedd wedi gorlifo yn rhannol ac yn llwyr.

Wrth i'r lefelau dŵr ostwng ychydig dros y penwythnos, cawsom neges fod y plymwr yn gwneud cynnydd da, yn teimlo eu ffordd dan ddaear ac yn gosod llinell blymio drom ar hyd y llwybr. Daeth Rick a John o hyd i'r bechgyn, yn fyw ac yn iach mewn siambr sych ddydd Llun 2il Gorffennaf. Yna yn syth dechreuodd y BCRC dderbyn cannoedd o ymholiadau gan y cyfryngau a miloedd o negeseuon o ewyllys da gan y cyhoedd gartref a thramor. Roedd yn rhaid inni ddatblygu system i ddelio â'r diddordeb anferthol gan y cyfryngau, er mwyn i'r staff oedd yn rheoli'r achub yn y DU ganolbwyntio ar sicrhau bod plymwr, personél cefnogi ac offer yn cyrraedd y gwersyll achub yn nhalaith Chiang Rai mewn pryd.

Sefydodd y BCRC system gyfathrebu drwy gynnal briff dyddiol i'r cyfryngau a chael tîm i ddelio ag ymholiadau o du'r cyfryngau a cheisiadau uniongyrchol am gyfweiliadau ag aelodau a arferai blymio mewn ogofâu ac achub yn y DU. Roedd hyn yn golygu tynnu llai o sylw'r tîm Rheoli Achub yn y DU a'r plymwr a'r personél cefnogi yng Ngwlad Thai.

Pa ffyrdd yr oedd pobl wedi awgrymu y gellid cael y bechgyn allan o'r ogof?

Cafodd y gorfoledd dechreuol wrth ddarganfod y bechgyn ei ddisodli gan gwestiynau ynghylch sut y gellid eu cael allan yn ddiogel.

Dechreuon ni dderbyn nifer o awgrymiadau ynghylch dulliau achub eraill. Roedd yna gwmnïau oled yn cynnig rigiau drilio i dyllu siafft dianc, ond gan nad oedd arolwg manwl o'r system ogof, nid oedd targed i rig drilio anelu ato. Byddai hyn, ynghyd ag oedi hir wrth aros i greu ffordd ar hyd llethrau coedwigoedd glaw y mynydd, wedi gwneud y dewis o dyllu siafft dianc yn afrealistig. Roedd yna lawer o awgrymiadau - a'r rheiny'n amrywiaeth ar ryw fath o wthio tiwb trwy rannau'r ogof oedd wedi gorlifo a'u pwmpio'n sych o ddŵr er mwyn i'r bechgyn fedru cropian i ddiogelwch (yn hytrach na'u tynlacio a'u mygu a fyddai'n digwydd pe gwnaed hynny!).

Roedd llawer o bobl wedi disgrifio rhyw fath o gapsiwl achub y gellid ei dynnu trwy'r rhannau dan ddŵr gan y plymwr neu raff dynnu, ond awgrymid hyn mewn anwybodaeth lwyr am ddimensiynau hynod fach yr ogof mewn sawl man. Dau ddewis yn unig oedd ar ôl. Stocio digon o fwyd a dŵr yfed i'r bechgyn aros yno dros gyfnod y monsŵn, neu ddod â'r bechgyn allan yn syth trwy'r rhannau dan ddŵr drwy ddefnyddio dulliau plymio mewn ogofâu.

Prif lun: Y bechgyn cyn iddynt fynd i ogof Tham Luang

Chwith ar y dudalen flaenorol: Dr Peter Dennis yn nerbyniad Llefarydd y Tŷ yn Nhŷ'r Cyffredin i anrhydeddu'r deifwyr a diolch i aelodau cefnogol y BCRC, 22 Hydref 2018.

Ar y chwith: Cynhadledd y cyfryngau yn Heathrow, 13 Gorffennaf 2018.

A oedd yna adeg pan ddechreuoch chi amau y byddai modd cael y bechgyn allan yn fyw?

Oedd. Ar ôl gweld bod y bechgyn yn fyw ac yn iawn a gosod y rhaff i arwain y plymwr trwy'r dŵr llwyd, roedd plymwr yr BCRC wedi camu i'r naill ochr gan fod yno yn unig i gyngori plymwr SEAL y Llynges.

Roedd plymwr y BCRC yn argyhoeddedig mai'r unig ffordd i ddod â'r bechgyn allan yn ddiogel oedd trwy ymgrych plymio cyn dechrau'r monsŵn. Ond roedd Canolfan Cyd-Reoli Timoedd Achub Thai yn parhau i wrthod eu cynllun gan ystyried ei fod yn rhy beryglus, ac yn lle hynny roeddent yn gobeithio pwmpio dŵr allan neu anfon cyflenwadau i'r siambr lle roedd y bechgyn yn sownd.

Nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud bum niwrnod ar ôl darganfod y bechgyn. Yn sgil marwolaeth drasig cyn-blymwr y Llynges, Saman Gunan, a phetrustod plymwr presennol y Llynges i fynd i mewn i'r ogof, dechreuom bryderu y byddent yn atal yr ymgrych achub er mwyn osgoi colli bywyd arall.

Byddai hyn wedi gadael y bechgyn i'w tynged oherwydd doedd dim cyflenwad sylweddol o fwyd wedi'u cyrraedd, na chyflenwad aer, na cheblau pŵer a chyfathrebu wedi cyrraedd y siambr lle roedd y bechgyn yn aros. Fodd bynnag, yn sgil rhywfaint o dystiolaeth fod dirywiad yng nghyflwr y bechgyn a lleihad yn yr ocsigen yn awyr y siambr, daeth yn fwyfwy clir i'r rhai yn y Ganolfan Cyd-Reoli na fyddai'r strategaeth hon yn gweithio. Fe'u gorfodwyd i ystyried y dewis arall mwy peryglus ond posibl.

Pa baratodau ar gyfer yr ymdrech achub oedd y BCRC wedi bod yn rhan ohonynt?

Tra bod plymwr BCRC yng Ngwlad Thai wrthi'n gweithio ar gynllun achub ymarferol, roedd y rheini ohonom ym Mhrydain yn brysur yn trefnu i ragor o blymwr a phobl i gynorthwyo ar y wyneb i fynd allan i Wlad Thai. Ar gyfer hyn, dibynnai'r BCRC ar gefnogaeth aelodau timau achub a Grŵp Plymio Ogofâu'r DU; gan weithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) i sicrhau trefnu fisâu ac yswiriant, tra bod staff Llysgenhadaeth Thai yn trefnu cludiant ar awyrennau Thai Airlines.

Roeddem hefyd wedi bod yn chwilio am offer sylfaenol. Un her benodol oedd dod o hyd i offer plymio arbenigol i ffitio plant, ond bu timau achub ogofâu'r DU o gymorth mawr ac fe gafodd un aelod o Dîm Achub Ogofâu De a Chanolbarth Cymru ei hun yn gyrru'n gyflym iawn gyda'r heddlu yn ei hebrwng ar hyd yr M4 ar ôl casglu masgiau plymio i





Dr Peter Dennis yn cael ei gyfnewid gan Evan Davis ar BBC Newsnight, 3 Gorffennaf 2018.

orchuddio wyneb plentyn o gwmni masnachol hael sy'n cyflenwi offer plymio yng Nghaerdydd. Cysylltodd y plymwyr yng Ngwlad Thai â phlymwyr oedd â hyfforddiant meddygol arbenigol, sef dau o Awstralia Richard Harris (anesthetydd) a Craig Challen (milfeddyg), a hwythau hefyd wedi teithio i'r gwrsyll achub. Heb eu cymysgedd hwy o gefndir meddygol a sgiliau plymio, ni allai'r cynllun achub wedi mynd rhagddo.

Cafodd gwahanol ddulliau o ffitio'r masgiau anadlu, cysylltu'r cyflenwad aer iddynt a chludo'r bechgyn eu rhoi ar brawf a'u mireinio mewn pwll nofio lleol gyda chymorth plant o oedranau tebyg i'r rheiny oedd yn sownd yn yr ogof. Roedd y BCRC mewn cysylltiad â chymorth diplomyddol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, cymorth gan personél milwrol Rheolaeth Môr Tawel yr UDA (US Pacific Command) gyda'u harbenigedd logistaidd sylweddol, a dirprwyath o ddiplomyddion Prydain o Swyddfa'r Consiwl a Llysgenhadaeth Prydain yn Bangkok, er mwyn helpu i argyhoeddi awdurdodau Thai yn y Ganolfan Cyd-Reoli i ymddiried ym marn ein plymwyr a'r cynllunio manwl ar yr ymgyrch achub drwy blymio. Roedd hi'n gymaint o ryddhad pan gafodd y cynllun ei awdurdodi'n hwyr nos Sadwrn 7 Gorffennaf.

Sut gwnaed y penderfyniad pa fechgyn y dylid dod â nhw allan yn gyntaf, a pha rai i fod yn olaf?

Gofynnwyd i'r bechgyn benderfynu rhyngddynt ei gilydd ym mha drefn y bydden nhw'n cael eu harwain allan. Roeddwn i'n falch o deall eu bod wedi dewis y drefn honno yn seiliedig ar y pellter yr oedd pob bachgen yn byw o'r ogof, roedd y rheiny oedd yn byw yn bellach yn gorfod beicio ymhellach i fynd adref i gael cinio gan eu mam. Dyna oedd sail resymegol a hyfryd eu penderfyniad ac mae'n dweud llawer am gymeriad

cadarn y bechgyn hynny. Wrth gwrs, roedd y sail honno'n ddiffygiol oherwydd wydden nhw ddim y caent eu cludo'n syth i ward arbennig yn Ysbyty Chiang Rai ac wedyn i gyfnod o adfyfrio mewn mynachlog Fwdhaidd!

Sut deimlad oedd clywed bod yr achub wedi bod yn llwyddiant a chroesawu'r tîm plymio yn ôl o Wlad Thai?

Rhyddhad mawr ar y dydd Mawrth pan ddaeth y newyddion bod pob un o'n criw achub ogof wedi dod allan yn ddiogel ar ôl i'r bechgyn olaf gael eu hachub. Hefyd, balchder enfawr yn yr hyn yr oeddent wedi llwyddo i'w gyflawni - roedd dod â chynifer o bobl oedd erioed wedi plymio o'r blaen yn ôl i ddiogelwch, ac iddyn nhw i gyd oroesi'r daith aruthrol o anodd allan o'r ogof, roedd yn wirioneddol arbennig.

Cyrhaeddodd y rhan fwyaf o blymwyr ogofâu BCRC a'r personél cymorth yn ôl i Heathrow yn gynnar fore Gwener 13 Gorffennaf. Aethom ati'n gyflym i drefnu Cynhadledd i'r Wasg yn y maes awyr, i geisio lleddfu diddordeb dwys y cyfryngau a'r galw mawr i gael mynediad at y plymwyr i gael cyfweiliadau ac ymddangosiadau.

Beth sydd wedi digwydd ers hynny?

Bu diddordeb cyhoeddus cyson a digynsail yn y gwaith achub, gyda nifer o gynulleidfaoedd a gwobrau i ddatlu'r stori newyddion hynod galonogol hon. Cafwyd derbyniadau i gydnabod y 'weithred ddyngarol anhunanol' gan Brif Weinidog y DU yn Rhif 10, gan Lysgenhadon Gwlad Thai a staff mewn Parti Gardd yn Llundain, y Llefarydd ac amrywiol Weinidogion ac ASau yn Nhŷ'r Cyffredin a Dug Caergrawnt ym Mhalas Buckingham. Roedd yn brofiad ddigon swrrealiaidd i gael fy hun yn cyflwyno'r ffigyrau cyhoeddus hyn i'r plymwyr mewn gwahanol achlysuron.

Roedd galw mawr ar y plymwyr i ymddangos ar raglenni materion cyfoes ar y teledu, a chynnis cyngor neu ymddangos mewn gwahanol ddogfennau a ffilmiau nodwedd. Mae hyn wedi cynnwys Gwobrau Pride of Britain *Daily Mirror*-ITV lle cafodd y plymwyr eu haduno ar y llwyfan gyda'r bechgyn yr oeddent wedi'u hachub, ac *This Morning* ITV. Roedd yn rhagorol clywed bod sawl un o blymwyr y BCRC wedi derbyn gwobr neu anrhydedd yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd, gan gynnwys Rick Stanton a John Volanthen yn ennill Medal George; Jason Mallinson a Chris Jewell wedi ennill Medal Dewrder y Frenhines a Connor Roe a Josh Bratchley wedi cael MBE yr un.



Emma Porter a Graham Smith o Gwasanaeth Achub BCRC yn Swydd Amwythig.



Trafod yw'r hanfod!

Fel Undeb Myfyrwyr caiff ein credoau, ein polisiau a'n safbwyntiau craidd eu penderfynu gan y myfyrwyr. Rydym yn cefnogi myfyrwyr i arwain y ffordd drwy ein Senedd a'n Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Senedd

Fel swyddogion, mae'n rhaid i ni ddilyn beth mae'r myfyrwyr yn ei ddweud a'r brif ffordd o wneud hyn yw drwy'r polisiau a bleidleisir ar eu cyfer yn ein cyfarfodydd democrataidd. Llunedd gwelwyd gostyngiad yn nifer y myfyrwyr a oedd yn rhan o'r broses llunio polisiau a dim ond 2 allan o 5 o gyfarfodydd y Cyngor oedd â chworwm ac a oedd yn gallu gwneud penderfyniadau.

Felly, ailwampwyd model y Cyngor i greu ein Senedd. Mae'r Senedd yn system lai a mwy cartrefol o gynrychiolwyr etholedig o'r clybiau chwaraeon, y cymdeithasau a chynrychiolwyr y cyfadrannau sy'n cwrdd i wneud penderfyniad ar ôl trafod a dadlau syniadau a gyflwynwyd gan unrhyw fyfyrwr. Mae wedi gwneud byd o wahaniaeth ac roedd holl gyfarfodydd ein Senedd yn nhymer un yn gwneud cworwm. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld y syniadau newydd, y trafodaethau a'r polisiau a fydd yn cael eu trafod yn nhymer 2.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Bob blwyddyn rydym yn cynnal cyfarfod democrataidd mawr ble gall unrhyw fyfyrwr gyflwyno syniadau, trafod a phleidleisio. Mae angen i 100 o fyfyrwyr fod yn bresennol er mwyn gallu trafod a gwneud penderfyniadau. Eleni daeth dros 150 o fyfyrwyr i'n CCB. Dyma rai o'r polisiau a basiwyd yn y Cyfarfod Mawr ac yr ydym wedi dechrau gweithio arnynt:

- Rhagor o gyllid ar gyfer chwaraeon ledled y Brifysgol;
- Newid y system bleidleisio ar gyfer y Senedd a'r Cyfarfod Mawr;



Tim Swyddogion UMAber 2018-19: O'r chwith i'r dde: Anna Wyn, Bruce Wight, Molly Longden, Meg Hatfield a Louisa Fletcher.

- Cael Masgot;
- Cynaliadwyedd Olew Palmwydd;
- Gwrthdroi'r boicot ar Prevent

Ydych chi'n gwybod am rywun a fyddai'n gwneud Swyddog da?

Cynhelir yr etholiadau ar gyfer y tîm o Swyddogion nesaf ym mis Mawrth a gall unrhyw fyfyrwr cofrestredig ymgeisio am rolau Amser-Llawn, Gwirfoddol a Chyfadrannol rhwng nawr a 12 canol dydd ar 26 Chwefror.

Hoffem glywed pwy fyddai'n gwneud swyddog da yn eich barn chi! Gallwch eu hawgrymu i ni'n gyflym a hawdd ar-lein yma: www.umaber.co.uk/llywioaber/etholiadau

Bydd aelod o staff wedyn yn cysylltu â hwy i roi gwybod iddynt fod rhywun o'r farn y byddent yn gwneud Swyddog da a'u hannog i ymgeisio.

Tim Swyddogion UMAber 2018-19

Teyrnged



William Wolfgang Dieneman 1929-2018

William Dieneman, Llyfrgellydd Prifysgol Aberystwyth rhwng 1970 a 1995.

Ganwyd William Dieneman yn 1929 yn Cottbus, a threuliodd ei blentyndod cynnar ym Merlin. Barnwr oedd ei dad ond dioddefodd y teulu erledigaeth dan y drefn Natsïaidd, ac yn 1939 yn naw oed dihangodd William i Brydain ar y Kindertransport, er yn ffodus, cafodd y teulu ei aduno yn ddiweddarach.

Ar ôl y rhyfel aeth i Goleg Christ Church, Rhydychen, ac ennill profiad

yn gynnar trwy weithio'n llyfrgellydd dan hyfforddiant wrth astudio am ei radd.

O'r 1950au tan 1970, bu gan William swyddi mewn nifer o lyfrgelloedd ym Mhrydain ac yn Nigeria.

Penodwyd William yn Llyfrgellydd Prifysgol Aberystwyth ym 1970, a gweithiodd yno tan ei ymddeoliad yn 1995. Cyfrannodd yn helaeth at gynllunio a datblygu safle newydd Llyfrgell Hugh Owen, gan ddwyn ynghyd holl wasanaethau llyfrgell y Brifysgol a oedd tan hynny ar wasgar.

Cyflog Byw Go Iawn



Ym mis Tachwedd 2018, cafodd y Brifysgol ei hachredu'n swyddogol yn gyflogwr Cyflog Byw Go Iawn.

Aeth **Newyddion** **ABER** i siarad â **Heather Hinkin**, Pennaeth Dros Dro Adnoddau Dynol, i gael gwybod rhagor am hyn a pham ei fod yn bwysig.

A allech chi esbonio beth yw'r Cyflog Byw Go Iawn?

Mae'r Cyflog Byw Go Iawn yn gyfradd cyflog sydd wedi'i gyfrifo'n annibynnol ac yn seiliedig ar yr hyn y mae angen i bobl ei ennill er mwyn gallu talu am gostau byw sylfaenol.

Caiff y Cyflog Byw ei osod gan y Sefydliad Cyflog Byw ac mae'n uwch na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a Chyflog Byw Cenedlaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r Cyflog Byw Go Iawn ar hyn o bryd yn £9 yr awr ledled y Deyrnas Unedig ac yn £10.55 yn Llundain i bawb dros 18 oed; o'i gymharu â Chyflog Byw Cenedlaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd ar hyn o bryd yn £7.83 yr awr i bobl dros 25 oed (dim ots ymhle yn y Deyrnas Unedig y maent yn byw).

A yw talu'r Cyflog Byw Go Iawn yn orfodol?

Nac ydi - mae talu'r Cyflog Byw Go Iawn yn wirfoddol.

Os yw cyflogwyr yn talu'r Cyflog Byw Go Iawn i'r holl weithwyr y mae'n eu cyflogi'n uniongyrchol, a chynllun ar waith i ymestyn hynny i staff sydd ar isgontract rheolaidd, yna gallant wneud cais i gael eu hachredu gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Mae'r Brifysgol yn un o 174 o gyflogwyr yng Nghymru sydd bellach wedi derbyn yr achrediad hwn.

Pryd benderfynodd y Brifysgol ddod yn gyflogwr Cyflog Byw Go Iawn?

Yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor, dechreuodd y Brifysgol dalu'r Cyflog Byw Go Iawn ym mis Ebrill 2018 i'r rhan fwyaf o'i staff a oedd ar gyfraddau fesul awr oedd yn is na'r Cyflog Byw Go Iawn. Yna, dechreuodd y gwaith gyda'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol i ddod i gytundeb i amrywio'r cyfraddau cyflog i'n gweithwyr fferm. Llwyddodd y Brifysgol i weithredu'r Cyflog Byw Go Iawn yn llawn ym mis Awst 2018, ac yna dechreuodd y broses achredu gyda'r Sefydliad Cyflog Byw.

Pam ydych chi'n teimlo ei bod yn bwysig i'r Brifysgol dalu'r Cyflog Byw Go Iawn?

Fel un o gyflogwyr mwyaf y Canolbarth, credaf ei bod yn bwysig bod y Brifysgol yn mynd i'r afael â phroblem tâl isel. Da a theg yw bod pobl yn cael cyflog y tybir ei fod yn ddigon i dalu am gostau byw sylfaenol, ac fel Prifysgol, rydym yn ymfalchïo ein bod wedi gallu cyflawni hyn trwy ddod yn gyflogwr Cyflog Byw Go Iawn.

"Mae cyflogwyr sy'n talu'r Cyflog Byw Go Iawn yn galluogi eu gweithwyr i fyw bywyd urddasol, ac yn eu cynorthwyo i dalu dyledion a thalu biliau."

Tess Lanning

Cyfarwyddwr y Sefydliad Cyflog Byw



Mae **Mohamed Cheggaf**, sy'n gweithio fel porthor yn y Brifysgol, ymhlith y rhai sy'n elwa o'r gyfradd uwch.

"Mae derbyn y gyfradd Cyflog Byw wedi gwneud gwahaniaeth mawr imi. Mae'r gost o fyw yn cynyddu drwy'r amser, gyda biliau siopa a biliau eraill yn codi'n gyson. Dwi nawr yn derbyn y Cyflog Byw, ac felly mae talu'r biliau yn haws ac mae bywyd yn well i fi a 'nheulu," meddai Mohamed, sydd hefyd wedi bod yn dysgu Cymraeg ers symud i Aberystwyth ddeuddeng mlynedd yn ôl.



Gwobr Arian Safon Iechyd Corfforaethol

Mae'r Brifysgol wedi cael ei hail-ddilysu am Wobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol, marc ansawdd hyrwyddo iechyd yn y gweithle Llywodraeth Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu Safon Iechyd Corfforaethol ac mae sefydliadau yn cael eu hasesu ar draws pedair lefel, o gategoriâu efydd, arian, aur a phlatinwm mewn perthynas â'u hymarferion i hyrwyddo iechyd a lles eu gweithwyr.

Dyfarwydd Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol i'r Brifysgol am y tro cyntaf yn 2015, ac ar ôl cael ei hail-asesu ym mis Hydref 2018, mae wedi cael ei dilysu am dair blynedd arall. Dywedodd Pennaeth Dros Dro Adnoddau Dynol, Heather Hinkin: *"Mae hwn yn newyddion gwych ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i gynorthwyo a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithle. Mae llawer o waith rhagorol yn digwydd gan gynnwys ymwybyddiaeth straen, hyrwyddo dewisiadau bwyd iach yn ein llifydd bwyta, y fenter Ffit ac Iach, cefnogi pobl sydd*

eisiau rhoi'r gorau i ysmegu, ac ymgyrch Teithio'r Byd sy'n cymhell pobl i ymarfer yn gyson. Hoffwn ddiolch i'r Grŵp Llywio Iechyd Corfforaethol a'r staff am eu cyfraniadau at y gwaith o hyrwyddo iechyd a lles ym Mhrifysgol Aberystwyth, a gosod y sylfeini ar gyfer ennill y wobr hon."

Fel mentrau ansawdd eraill yn y gweithle, mae'n rhaglen raddol a chaiff sefydliadau eu hail-asesu bob tair blynedd. Yn seiliedig ar yr adborth cadarnhaol o'r asesiad ail-ddilysu, bydd y Brifysgol nawr yn gwerthuso'r meini prawf ar gyfer y Wobr Aur yn erbyn ein darpariaeth bresennol.

Uwchben: Tim Adnoddau Dynol y Brifysgol yn dathlu ail-achrediad Gwobr Arian Safon Iechyd Corfforaethol.



Mae dwy ar bymtheg o fenywod ledled y Brifysgol wedi dechrau ar Raglen Datblygu Menywod Springboard, sy'n rhedeg yn y Brifysgol am y chweched tro.

A hithau'n rhaglen ryngwladol arobryn, mae Springboard wedi'i chynllunio i fenywod o bob cefndir, oed a chyfnodau yn eu bywydau. Mae'r rhaglen yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed yn 2019. Mae Springboard yn galluogi merched i wella eu sgiliau a'u doniau, herio


pŵer a chydaddoldeb, ac adeiladu hyder, pendantrwydd a delwedd gadarnhaol. Mae'n galluogi i gyfranogwyr nodi camau clir, ymarferol a realistig yr hoffent eu cymryd, a datblygu'r sgiliau a'r hunanhyder i gymryd y camau hynny. Yn ystod y rhaglen bydd cyfranogwyr yn adolygu

pynciau megis rhinweddau, cryfderau, rhwydweithio, amcanion, pendantrwydd, ymdrin â phwysau a rheoli eu delwedd a'u gwledded.

Yn ogystal â chyfle i rwydweithio â chydweithwyr eraill, bydd y cyfranogwyr yn cael cyfle i glywed gan siaradwyr gwadd benywaidd

ysbrydoledig a fydd yn rhannu'r heriau y maent wedi'u hwynebu a'u goresgyn yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Os oes digon o alw, mae'n bosibl y cynhelir Rhaglen Springboard arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Os byddai gennych chi ddi-ddordeb, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Joy Arkley yn yr Adran AD, sy'n hyfforddwraig Springboard trwyddedig ar ei liwt ei hun - joa19@aber.ac.uk - estyniad 3070.



Bywyd Newydd i'r Hen Goleg

Ychydig cyn y Nadolig datgelwyd cynlluniau manwl ar gyfer trawsnewid yr Hen Goleg yn ganolfan fyrlymus i addysg, diwylliant a menter. Arweinydd y prosiect uchelgeisiol yw **Dr Rhodri Llwyd Morgan** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol y Brifysgol. Dyma'i adroddiad ef ar y datblygiadau diweddaraf.

Wrth ysgrifennu hwn, mae'r ceisiadau manwl am ganiatâd cynllunio a chymeradwyaeth adeilad rhestredig yn cael eu paratoi i'w cyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion. Cymerodd tipyn o amser i ddod i'r fan hon ond rwy'n credu bod gennym nawr gynnig a fydd yn diogelu dyfodol yr Hen Goleg am genedlaethau i ddod. Mae amryw genedlaethau wedi gweithio neu astudio o fewn i furiau'r Hen Goleg, ac mae gan nifer fawr atgofion melys o'r adeilad. Mae'n adeilad gyda'r mwyaf cyfarwydd yng Nghymru ac mae iddo arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol.

Dyma fan sefydlu Prifysgol Cymru nôl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'n dal i fod yn symbol o'r gwerth a roddwn yma ar addysg uwch, ar ei ddyllanwad trawsffurfiol ac ar sicrhau ei fod ar gael i bawb. Ein gweledigaeth yw gallu ailagor drysau'r adeilad rhestredig Graddfa 1 hwn, a hynny nid yn unig er budd myfyrwyr a staff y Brifysgol ond y gymuned ehangach hefyd.

Bydd yr ailddatblygiad arfaethedig yn darparu manau astudio 24 awr i fyfyrwyr, cartref newydd i ganolfannau ymchwil rhyngddisgyblaethol, a chanolfan newydd ar gyfer trafodaethau, deialog a chynadleddau academaidd. Nodwedd arall allweddol fydd creu 12 o unedau busnes, diolch i bron i £1 miliwn o gyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Unedau ar gyfer cyw-fusnesau graddedigion fydd y rhain, i fusnesau deillio neu fentrau dyfeisgar eraill a

seiliwyd ar dechnolegau creadigol.

Datblygir Llyfrgell odidog yr Hen Goleg yn lle i gynnal achlysuron o bob math, yn berfformiadau a gwyliau, a bydd y llawr uchaf yn darparu 30 ystafell o lety pedair seren safonol. Bydd yr Hen Goleg yn cynnal arddangosfeydd yn pwysleisio dysgu ysbrydoledig ac yn darlunio etifeddiaeth eithriadol dysgu ac ymchwil y Brifysgol.

O fynd i'r wefan fe welir bod y ddau dŷ Sioraidd sydd nesaf at yr Hen Goleg ac yn eiddo i'r Brifysgol yn cael eu hymgorffori'n ddeheuig i'r cynlluniau. Bydd atriwm chwe llawr yn cael ei greu uwchben a'r tu ôl i'r ddau dŷ, i greu mynediad cyfoes trwy lifft a grisiau i'r Hen Goleg, yn ogystal ag ystafell dderbyniadau ar y to yn edrych dros y môr. Defnyddir y ddau dŷ hefyd i fod yn fynedfa o ochr glan y môr lle bydd caffi a bar.

Yn gyfan gwbl, mae'r cynigion yn anelu i greu tua 40 swyddi newydd a denu dros 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gan weithredu'n gatalydd i adfywiad economaidd yn y rhan hon o Gymru. Faint felly fydd angen ei wario ar yr adnewyddu? Yn amlwg, mae'n waith heriol oherwydd nodweddion hanesyddol yr adeilad a'i statws rhestredig. Paratowyd costau'n ddiweddar gan syrfewyr a fu'n cydweithio â'n tîm o gynllunwyr profiadol, ac amcangyfrifir mai £26.2m yw'r cyfanswm. Caiff y costau hyn eu talu'n rhannol trwy raglen y Brifysgol o fuddsoddi cyfalaf ond cyllid allanol

fydd y brif ffynhonnell, gan gynnwys grantiau o ffynonellau cyhoeddus, ymddiriedolaethau, sefydliadau a mathau eraill o ymgyrchoedd codi arian. Fe gofwich efallai ein bod, ym mis Gorffennaf 2017, wedi ennill £850,000 o gyllid Datblygu Cam Un gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac fe roddodd hyn ni mewn sefyllfa i ddatblygu cynlluniau manwl. Byddwn yn cyflwyno'r rhain i ail rownd Cronfa'r Loteri yn nes ymlaen eleni a disgwyliwn y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â chais am bron i £10miliwn erbyn dechrau 2020.

I'n cynorthwyo i gyrraedd y targed, rydym hefyd wedi lansio apêl gyhoeddus i godi arian - yr apêl fwyaf o'i math ers i geiniogau prin chwedlonol y werin gynorthwyo i'n sefydlu yn ôl ym 1872. Addawyd dros £300,000 eisoes gan gyn-fyfrwyr, cyfeillion a chefnogwyr ledled y byd, felly gofynnwn ichi gyfrannu os oes modd yn y byd. Fel yn y gorffennol, bydd pob ceiniog yn cyfri.

Gobeithio y cewch eich ysbrydoli i chwythu anadl newydd i'r adeilad hwn sy'n annwyl yng ngolwg cynifer ohonom, wrth i ni weithio tuag at ailagor yr Hen Goleg mewn pryd i gyd-daro â dathlu ein pen-blwydd yn 150 oed yn 2022-23. Yn ogystal â chyfrannu eich hun, gallwch hefyd gynorthwyo'r Brifysgol trwy fod yn gennad ar ran y prosiect uchelgeisiol hwn ac annog eraill i ystyried cyfrannu.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect a dulliau cyfrannu i'w gweld ar ein gwefan
www.aber.ac.uk/cy/oldcollege.

Canolfan y Celfyddydau - Beth sy' mlaen

Anweledig (Cwmni'r Frân Wen)

Dydd Mawrth 5 Mawrth - Dydd Gwener 8 Mawrth



Mae gwella'n beth blêr... Mae cynhyrchiad cignoeth a dirdynnol Anweledig yn dilyn taith Glenda (Ffion Dafis), dynes sy'n byw gydag iselder difrifol, wrth iddi frwydro i ymdopi â'r salwch anweledig. Yn y fersiwn newydd hon rydym yn profi

gornest tanbaid Glenda wrth iddi ddiodef ac ymladd y cyflwr. A fydd hi'n darganfod goleuni ym mhen draw'r twnnel troellog? Dyma'r bennod olaf yng nghyfres afaelgar Aled Jones Williams sydd wedi ei ysbrydoli gan gofnodion meddygol yr hen ysbyty meddwl yn Ninbych yng Ngogledd Cymru.

Anaddas i rai dan 14 oed

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/theatre/anweledig

Nish Kumar: It's In Your Nature To Destroy Yourself

Dydd Mercher 6 Mawrth



Mae'r enwebai dwbl o Wobr Comedi Caeredin Nish Kumar yn mynd a'i sioe newydd sbon ar daith genedlaethol o gwmpas y DU! Mae'r teitl yn ddyfyniad o *Terminator 2*.

Bydd jôcs am wleidyddiaeth, yr allu dynol i hunan-ddinistro, ac os bydd hyn yn arwain at ddiwedd dyddiau. PETHAU LLAWN HWYL. Fo yw cyflwynydd y Mash Report, rhywbeth efallai'ch bod chi wedi gweld ar BBC 2 neu ar fideo Facebook wedi'i bostio gan rywun aethoch chi'r ysgol gyda nhw ond heb siarad gyda nhw ers tipyn. Fel y gwelwyd ar *Live at the Apollo* (BBC2), *Taskmaster* (Dave), *Live From the BBC* (Netflix), *QI* (BBC2) *Have I Got News For You* (BBC1) a *Joel & Nish Vs The World* (Netflix/Comedy Central).

Canllaw Oedran: 16+

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/comedy/nish-kumar-16yrs

WEDI
GWERTHU
ALLAN



Ian McKellen ar y llwyfan

Dydd Gwener 15 Mawrth

Sioe agos-atoch sy'n gymysgedd o storïau ac actio, gan gynnwys Tolkien, Shakespeare, eraill...a chi y gynulleidfa.

Neges gan Syr Ian McKellen:

"Rwy'n dathlu fy mhen-blwydd yn 80 oed trwy fynd ar daith newydd unigol o amgylch theatrau rwy'n eu hadnabod yn dda a rhai nad ydw i'n eu hadnabod mor dda. Mae'r sioe yn dechrau gyda Gandalf a bydd mwy na thebyg yn gorffen gyda gwahoddiad i ddod i actio gyda mi ar y llwyfan. Yn y canol bydd storïau ac actio. Hwn fydd fy ymweliad cyntaf ag Aberystwyth. Gwell hwyr na hwyrach! Bydd yr elw'n mynd i raglen theatr *Canolfan y Celfyddydau* i blant ifanc a theuluoedd. Gobeithiaf eich gweld yno!"

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/theatre/ian-mckellen-stage

Gŵyl Agor Drysau Arad Goch

Dydd Sadwrn 16 Mawrth - Dydd Sadwrn 23 Mawrth



Gŵyl Agor Drysau, a drefnir gan Gwmni Theatr Arad Goch, yw'r unig ŵyl ryngwladol ar gyfer y celfyddydau perfformio i gynulleidfaedd ifanc yng Nghymru. Mae Agor Drysau yn wythnos lawn o gynrychiadau gorau'r byd i blant a phobl ifanc, digwyddiadau awyr

agored, gweithdai, seminarau proffesiynol a llawer mwy. Gyda digwyddiadau i ysgolion, i deuluoedd a digwyddiadau amgen gyda'r nos, mae rhywbeth i bawb yn yr ŵyl.

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/family/gŵyl-agor-drysau-festival

Awakening (Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru)

Dydd Mercher 24 Ebrill



Tair dawns unigryw sy'n difyrro ac yn syfrdanu. Mae *Afterimage* yn brofiad theatraidd arbennig yn defnyddio cymysgedd o ddrychau a dawns greadigol. Yn *Revellers' Mass* daw criw annhebygol at ei gilydd i gael cinio ac mae safonau cwrtseisi yn cael eu profi. Yn *Tundra* ceir ailadrodd tra modern o lyfrau hanes am ddawns werin a chwyldro Rwsiaidd. Coreograffi gan: Fernando Melo, Caroline Finn a Marcos Morau.

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/dance/awakening

Côr Cymru

Rownd gyn derfynol 15-17 Chwefror
Rownd derfynol 5-7 Ebrill



Mynnwch eich sedd yn y gynulleidfa i fwynhau goreuon ysgolion cynradd Cymru yn perfformio ac yn cystadlu am deitl Côr Cymru Cynradd 2019.

Tocynnau ar gael drwy ffonio

029 2022 3456

neu ebostio corcymru@randomedia.co.uk

Mae tocynnau'n rhad ac am ddim

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael copi o lyfryn gwanwyn *Canolfan y Celfyddydau*, sydd hefyd ar gael ar ein gwefan:

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy



Penodiadau

Yr Adran Gynllunio



Steve Walsh yw Pennaeth newydd Cynllunio. Ar ôl gweithio yng Ngholeg Amaethyddol Cymru a Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, aeth ati i astudio am MBA ym Mhrifysgol Twente (yr Iseldiroedd) cyn gweithio ar gontractau ymgynghorwyr amgylcheddol a datblygu tîm

corfforaethol. Dychwelodd Steve i weithio ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2011, gan ddechrau gyda Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ac yna'r Swyddfa Gynllunio. Cyn hyn, ef oedd Pennaeth Dadansoddi Data a Chofnodi.

Adran Daearyddiaeth A Gwyddorau Daear



Penodwyd **Dr Sarah Davies** yn Bennaeth Dros Dro Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear tan 31 Gorffennaf 2019. Ymunodd Sarah â'r Adran yn 2002 fel darlithydd Daearyddiaeth Ffisegol a Gwyddor yr Amgylchedd, a'i phenodi'n Ddarlennydd yn

2014. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ail-greu newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd drwy ddefnyddio tystiolaeth o waddodion llynnoedd. Mae hefyd yn gweithio ar gofnodion hanesyddol a gwaddodion yn ymwneud ag amrywiadau yn yr hinsawdd a thywydd eithafol a'u heffeithiau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.



Mae **Dr Chris Owers** wedi ymuno â'r adran fel Gwyddonydd Prosiect Ymchwil. Yn ddiweddar cwblhaodd Chris ei ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Wollongong, Awstralia. Bydd yn gweithio ar y prosiect Daear Fyw, gan weithredu dosbarthu defnydd tir a mapio newidiadau

yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda'r Athro Richard Lucas a Dr Pete Bunting.



Mae **Dr Suvarna Punalekar** wedi ymuno fel Ymchwilydd Ôl-ddoethurol ar brosiect Cymru Fyw sy'n cael ei ariannu gan Sêr Cymru. Nod y prosiect yw datblygu system i fonitro defnydd tir yn barhaus trwy gyfuno ystod eang o ddata synhwyro o bell. Gellid

defnyddio'r system unrhyw le yn y byd ac mae'n cynnig mantais enfawr dros algorithmau dosbarthu confensiynol o ran cysondeb, modd ei atgynhyrchu a'i allu i ddelio ag amrywiaeth o newidiadau yn y defnydd tir.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol



Mae **Dr Núria Franco-Guillén** yn gydymaith ymchwil ôl-ddoethurol newydd yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Bydd hi'n gweithio ar brosiect IMAJINE Horizon 2020, ar gyfiawnder gofodol. Enillodd ei doethuriaeth yn y Gwyddorau Gwleidyddol a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Pompeu Fabra (Barcelona), lle bu'n astudio dadleuon pleidiau cenedlaetholgar heb wladwriaeth ar fewnfudo.



Ymunodd **Dr Farrah Samir Hawana** fel Darlithydd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Diogelwch. Yn ddiweddar, symudodd o Genefa, y Swistir, lle bu'n gweithio yn Gydymaith Ymchwil / Cydlynnydd Prosiect i'r Aseiad Diogelwch yng Ngogledd Affrica yn yr Arolwg

Arfau Bychain. Dyfarnwyd ei doethuriaeth iddi gan Sefydliad Ymchwil Astudiaethau Rhyngwladol a Datblygu (IHEID) yn 2016, ac roedd ei hymchwil doethuriaeth yn canolbwyntio ar gysylltiadau milwrol-sifil yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (MENA) gan gyfeirio'n benodol at yr Aifft.



Ymunodd **Dr Christopher Phillips** fel Darlithydd mewn Diogelwch Rhyngwladol. Enillodd ei ddoethuriaeth mewn Hanes o Brifysgol Leeds yn 2015, a chyn hynny bu'n dysgu ym Mhrifysgol y Drindod Leeds a Phrifysgol Huddersfield. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar ysgrif sy'n dwyn y teitl Arbenigedd Sifil

mewn Rhyfel: Arbenigwyr Trafnidiaeth Prydain a'r Rhyfel Byd Cyntaf - i'w chyhoeddi gan y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol - ac mae ganddo ddiddordebau ymchwil yn y rhyngweithio rhwng y wladwriaeth, y lluoedd arfog a mentrau preifat.

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig



Dyfarnwyd Cadair Sêr Cymru II i **Glyn Hewinson** i sefydlu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Twbercwlosis Buchol yn IBERS. Enillodd Glyn ei DPhil mewn Microbioleg ym Mhrifysgol Rhydychen lle bu hefyd yn gymrawd ôl-ddoethurol. Mae wedi gweithio ym maes

twbercwlosis buchol ers 29 mlynedd ac, hyd yn ddiweddar, ef oedd y Gwyddonydd Arweiniol ar gyfer Twbercwlosis Buchol yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.




Mae **Martin Vordermeier** wedi ymuno â'r Ganolfan Ragoriaeth newydd ar gyfer Twbercwlosis Buchol yn Athro Sêr Cymru II. Enillodd Martin ei ddoethuriaeth mewn microbiolog o Brifysgol Tübingen (yr Almaen). Ar ôl swyddi ôl-ddoethurol yn Adelaide (Awstralia) ac Uned

Heintiau Twbercwlosis a Heintiau Cysylltiedig (Llundain), ymunodd â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn Surrey i arwain tîm sy'n datblygu brechlynnau a diagnosteg ar gyfer TB mewn gwartheg.



Mae **Bernardo Villarreal-Ramos** wedi ymuno â'r Brifysgol fel Athro Imiwnoleg yn y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Twbercwlosis Buchol a ariennir gan Sêr Cymru II. Graddiodd fel biolydd o UNAM yn Ninas Mecsico. Derbyniodd ei ddoethuriaeth mewn Imiwnoleg o Goleg

Prifysgol Llundain (UCL). Mae wedi gweithio ar dwbercwlosis buchol ers 2000.



Ymunodd **Dr Shikha Ojha** fel Darlithydd Gwyddor Bwyd ym mhrosiect BioArloesedd Cymru. Enillodd Dr Ojha ei doethuriaeth mewn Technoleg a Gwyddor Bwyd o Goleg Prifysgol Cork, Iwerddon a threuliodd flwyddyn yn ymchwilydd ôl-ddoethurol yn y grŵp Uwch Dechnoleg

Bwyd yn Teagasc, Awdurdod Amaethyddiaeth a Datblygu Bwyd Iwerddon. Enillodd Wobr Gwyddonydd Ifanc 2018 Undeb Rhyngwladol Technoleg a Gwyddor Bwyd.



Ymunodd **Dr Chao Chen** fel Cymrawd Ymchwil COFUND Sêr Cymru II. Enillodd ei ddoethuriaeth o Brifysgol Amaethyddol Tsieina, a bu'n gweithio am bum mlynedd fel Athro Cynorthwyol yn Academi Amaethyddiaeth a Choedwigaeth

Beijing. Mae ei brosiect yn canolbwyntio ar ddeall hirhoedledd *Molinia caerulea* a'i gysylltiadau ag ymledu. Mae ei brif ddiddordebau ymchwil yn cynnwys ecoleg glaswelltiroedd, ecoleg ymledu a phlanhigion amaethyddol.



Mae **Jake Henry** wedi ymuno â thîm BioArloesedd Cymru yn IBERS fel dylunydd E-Ddysgu, gan reoli tîm bach sy'n cefnogi darlithwyr y prosiect i greu deunyddiau arloesol ar gyfer dysgu o bell. Astudiodd Jake ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan

a bu'n gweithio fel artist amlgyfrwng yn See3D, sef cwmni deillio o Brifysgol Aberystwyth. Mae wedi treulio'r chwe blynedd diwethaf yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



Mae **Jackie Sayce** wedi ymuno ag IBERS fel Cydlynnydd Prosiect a Swyddog Datblygu Busnes ar gyfer VETHUB1, sef prosiect gwerth £4.2 miliwn a ariennir gan yr UE. Bwriad y prosiect yw darparu labordai a mannau swyddfa modern, llawn offer i hyrwyddo a diogelu iechyd pobl ac anifeiliaid. Bydd y tîm prosiect yn gweithio ar y cyd â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Canolfan Wyddoniaeth Filfeddygol Cymru a phartneriaid eraill.

Yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm A Theledu



Penodwyd **Mr Simon Banham** yn Bennaeth Dros Dro Theatr, Ffilm a Theledu tan 31 Gorffennaf 2019. Ymunodd Simon â'r Adran ym Medi 1999 ac mae bellach yn Ddarllenyydd mewn Senograffeg a Dylunio Theatr. Mae'n arfer ei grefft fel senograffegydd ac mae ei berthynas waith gyda Theatr

Cerdd Cymru a'r National Theatre Wales yn parhau. Mae'r rhan fwyaf o'i waith cyfredol yn cael ei greu gyda Quarantine, cwmni a gyd-sefydlodd yn 1998 gyda'r cyfarwyddwyr Richard Gregory a Renny O'Shea.

Yr Ysgol Gelf



Mae **Dr Samuel Raybone** yn ymuno â'r Ysgol Gelf fel Darlithydd mewn Hanes Celf. Mae ei ymchwil yn archwilio'r diwylliant gweledol a chelf yn Ewrop y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn fwyaf penodol Argraffadaeth, ffotograffiaeth ac effemera. Ar ôl astudio am

ddoethuriaeth yn Sefydliad Celf Courtauld, bu Samuel yn dysgu yn y Courtauld ac ym mhrifysgolion Rhydychen, Essex a Chaerlŷr.

Ysgol Fusnes Aberystwyth



Mae **Dr Julio Munoz** wedi ymuno fel Darlithydd mewn Twristiaeth. Yn wreiddiol o Chile, enillodd ei raddau Baglor a Meistr ym Mhrifysgol Otago yn Seland Newydd ac yna ei ddoethuriaeth o Ysgol Lletygarwch a Rheoli Twristiaeth Prifysgol Surrey. Mae ei ymchwil

yn edrych ar brofiad ymwelwyr mewn dinasoedd prifysgol ac yn arbennig sut mae myfyrwyr yn chwarae rhan wrth ddenu ymwelwyr.

Grŵp Gweithredol y Brifysgol

Yn dilyn ailstrwythuro'r Brifysgol gyfan, wele ganllaw cryno i gyfrifoldebau'r Grŵp Gweithredol.

